YR ATODLEN

# RHAN 3

## YR WYBODAETH SY'N OFYNNOL MEWN DATGANIAD CYCHWYNNOL

**19.**—(1) Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

(2) Yn achos ysgol annibynnol a chanddi lety byrddio—

(a) nifer y disgyblion byrddio, a

(b) oedran (ar 31 Awst yn union cyn y dyddiad y cyfeirir ato yn rheoliad 4(2)(b)) y disgybl byrddio hynaf a'r disgybl byrddio ieuengaf.

(3) Yn achos ysgol annibynnol sydd hefyd yn darparu addysg ran-amser, rhaid datgan y niferoedd sy'n ofynnol gan is-baragraff (1) ar wahân mewn cysylltiad â disgyblion sy'n cael addysg ran-amser a'r rhai sy'n cael addysg lawnamser.

(4) Yn achos ysgol annibynnol gydaddysgol, rhaid datgan yr holl niferoedd sy'n ofynnol gan y paragraff hwn ar wahân ar gyfer disgyblion sy'n fechgyn ac ar gyfer disgyblion sy'n ferched.

**20.**—(1) Nifer y disgyblion yn yr ysgol annibynnol—

(a) y mae awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol mewn cysylltiad â hwy;

(b) y mae awdurdod lleol yn cynnal datganiad anghenion addysgol arbennig mewn cysylltiad â hwy o dan adran 324 o Ddeddf 1996.

(2) Nifer y disgyblion yn yr ysgol annibynnol nad ydynt yn dod o fewn is-baragraff (1), ond y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig.

**21.** Nifer y disgyblion yn yr ysgol annibynnol sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

**22.** Yr wybodaeth a ganlyn ynghylch athrawon a gyflogir yn yr ysgol annibynnol (gyda'r niferoedd yn cael eu rhoi ar wahân ar gyfer athrawon sy'n ddynion ac ar gyfer athrawon sy'n fenywod)—

(a) nifer yr athrawon llawnamser,

(b) nifer yr athrawon rhan-amser, ac

(c) nifer cyfanredol yr oriau yr wythnos y mae athrawon rhan-amser yn eu gweithio fel arfer yn ystod y tymor.

**23.** Yr wybodaeth a ganlyn ynghylch pob person a gyflogir yn yr ysgol annibynnol—

(a) ei enw ac unrhyw enwau blaenorol y mae wedi cael ei adnabod wrthynt,

(b) ei ryw, ei ddyddiad geni, ei rif Yswiriant Gwladol ac ym mha swyddogaeth y caiff ei gyflogi,

(c) yn achos pob athro neu athrawes, ei gymwysterau neu ei chymwysterau a datganiad ynghylch a yw'n bennaeth, yn athro llawnamser neu'n athrawes lawnamser, neu'n athro rhan-amser neu'n athrawes ran-amser, a

(d) pan fo'n berthnasol i unrhyw unigolyn—

(i) a oes tystysgrif GDG wedi ei chael mewn cysylltiad â'r unigolyn hwnnw cyn penodi'r unigolyn hwnnw neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penodi'r unigolyn hwnnw, neu

(ii) pan fo'r unigolyn hwnnw wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, a oes gwiriad wedi ei wneud o ran statws tystysgrif GDG yr unigolyn,

a bod copi o'r dystysgrif GDG honno neu ganlyniad y gwiriad gwasanaeth diweddaru'r GDG hwnnw ar gael i'r perchennog.

**24.**—(1) Swm y ffioedd dysgu blynyddol a ffioedd eraill (ac eithrio ffioedd ar gyfer llety byrddio) sy'n daladwy mewn cysylltiad â disgybl yn yr ysgol annibynnol fel amod i'r disgybl gael mynychu'r ysgol.

(2) Yn achos ysgol annibynnol sy'n darparu llety byrddio ar gyfer disgyblion, swm y ffioedd byrddio blynyddol sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r disgybl byrddio.